***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 357 (Cy. 87)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

## Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mawrth 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7 a 15 o Ddeddf Caffael Tir 1981(**1**) a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1981 p. 67; mewnosodwyd adran 15 a pharagraff 6 o Atodlen 1 gan adrannau 100(1) a (7) a 101(1) a (5), yn y drefn honno, o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5). Mewnosodwyd adran 15(4)(e) ac (f) a pharagraff 6(4)(e) ac (f) gan baragraffau 1, 2(1) a (2), a 3(1) a (2) o Atodlen 15 i Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan adran 7(2) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) i'r graddau yr oedd yn arferadwy yn unig mewn perthynas â gorchmynion o'r fath sydd i'w gwneud neu i'w cadarnhau gan y Cynulliad. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).